Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan
Cylchlythyr

Gwanwyn 07

Rhifyn 3

Cyfarfodydd Teulu'n Atal ASBOs……Yng Nghasnewydd mae Atebion Teulu, Cyfarfod Teulu cyfiawnder adferol , wedi llwyddo i roi diwedd ar y cwynion i'r Heddlu a Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol. Oherwydd cwynion gan gymdogion roedd pedwar o blant mewn perygl o dderbyn ASBOs, felly trefnwyd Cyfarfod Teulu mewn dau gam. Yn gyntaf er mwyn dod i gytundeb am gyfathrebu ac ymddygiad a fyddai'n lleihau'r angen i gwyno. Yn ail er mwyn cynnwys y plant, eiriolwr ac aelodau o'r teulu. Cytunwyd ar gynlun i wella ymddygiad a pherthnasoedd gyda chymdogion.

Nid yw'r plant bellach yn cael eu hystyried ar gyfer ASBO ac mae perthynas y teulu gyda'r cymdogion wedi gwella.

Mae'r broses yn dangos mor effeithiol yw Cyfarfodydd Teulu a'r canlyniadau positif sydd yn bosibl, nid yn unig i'r teuluoedd ond i'r cymunedau lle maen nhw'n byw.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Sarah Gooch yn

Lansio Pecyn Cymorth Cyfarfodydd Teulu yng Nghymru …

Lansiwyd Pecyn Cymorth Cyfarfodydd Teulu gan Jane Hutt, Gweinidog dros Fusnes y Cynulliad, Cydraddoldebau a Phlant yn Adeilad y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr 22ain Mawrth 2007 gydag Elwyn Owens Cyd-gadeirydd y CT yn bresennol. Estynnodd David Flanagan, Cadeirydd Rhwydwaith CT Cymru Gyfan groeso i bawb, ac yna atgoffwyd yr Awdurdodau Lleol a darparwyr gwasanaeth eraill gan Jane Hutt y dylid defnyddio Cyfarfodydd Teulu mewn gwaith ymyrrol ac ataliol cynnar gyda theuluoedd. Ysgrifennwyd y Pecyn Offer ar gyfer y rhai sydd yn gweithio gyda phlant bregus a'u teuluoedd i fod yn gymorth tuag at wneud penderfyniadau positif gyda'r teulu'n arwain. Mae'r pecyn yn dangos mor effeithiol yw'r Cyfarfodydd Teulu yn y broses o gadw plant yn ddiogel o fewn eu teulu. Diolch yn fawr i'r CT, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran dros Addysg a Sgiliau am gyhoeddi'r Pecyn Cymorth ac i Sean O'Neill, Plant yng Nghymru, am drefnu'r lansiad, ac i bawb a oedd yn bresennol, yn cynnwys aelodau teuluoedd a chynrychiolwyr Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan.

Teyrnged i Peter Clarke…

Gan David Flanagan

Dydw i ddim yn un am rwbio mewn Aelodau Seneddol a Gweinidogion LICC, a phan ydw i'n gorfod gwneud hynny dydw i ddim yn gyfforddus ac rydw i'n gorfod gwylio'n ofalus iawn beth dwi'n ei ddeud. Roedd Peter, yn ei swydd fel y Comisiynydd Plant cyntaf, mewn safle uchel ac roedd gwleidyddion a darlledwyr yn barod iawn i wrando arno, ond roedd yn berson normal ac yn un y gallech siarad ag ef a gwybod ei fod yn gwrando, gallech gynnig eich syniadau iddo heb deimlo'n wirion. Dyna nodweddion gwych mewn dyn a oedd yn gorfod eiriol dros blant ar y lefel uchaf bosibl.

Roedd Peter yn ffrind da i ni yn y proffesiwn Cyfarfodydd Teulu ac fe ddeuai i wrando arnom a chynnig ei gefnogaeth a'i arweiniad. Wn i ddim am neb arall a fyddai wedi rhoi o'i amser prin ac a fyddai wedi bod â'r amynedd …….

Roedd yn hawdd ei adnabod yn ei siwt las a'i glustdlws ac roedd y newid ynddo pan aeth yn wael yn sioc fawr i mi. Roedd y sioc o glywed ei fod wedi marw'n fwy o lawer; roedd eiriolwr pwerus wedi mynd ond, yn fwy na hynny, roeddwn wedi colli un a fyddai bob amser yn barod â'i wên pan ddigwyddem gwrdd.

Cefais gefnogaeth Peter unwaith pan oeddwn yn fyfyriwr brwd a fu'n rhy barod i siarad mewn un o'r cyfarfodydd hynny lle mae gweithwyr cymdeithasol yn cael yr enw o fod allan o gyswllt â theuluoedd. Roedd pawb yn yr ystafell yn gwgu arnaf a gallwn weld fy ngyrfa'n diflannu yn y fan a'r lle. Cytunodd un person â'r hyn a ddywedais dan refru, a Peter oedd hwnnw. Doeddwn i erioed wedi cwrdd ag ef cyn hynny ond cefais ei gefnogaeth lwyr (diolch, yr hen fêt - roeddwn i bob amser wedi bwriadu dweud hynny) a dywedodd mewn ieithwedd gwaith cymdeithasol yr hyn yr oeddwn i wedi ei ddweud mewn tymer!

Dyna fel roedd Peter; siaradai dros y rhai nad oedd ganddynt lais cryf…..plant…..myfyrwyr cegog yn ceisio egluro, ….. pobl Cyfarfodydd Teulu sydd angen ffrind mewn safle uchel ….

Cysga'n dawel, ffrind, rwyt yn ei haeddu.

Gwerthuso Cy-farfodydd Teulu yng Nghymru

Comisiynodd Tros Gynnal waith i ddatblygu offeryn Gwerthuso Cymru Gyfan er mwyn cael darlun cy-flawn o'r Cyfarfodydd Teulu ledled Cymru. Mae Sally Holland, Abyd Quinn Aziz ac Amanda Robinson o Brifysgol Caerdydd wedi casglu data am ddau gant o Gyfarfodydd Teulu rhwng 2004 a 2006 gan gofnodi amcanion y Cyfarfodydd Teulu a barn y prif gyfranogwyr. Canfu'r astudiaeth bod y mwyafrif o'r Cyfarfodydd Teulu'n ymdrin ag ystod o fate-rion a oedd yn ymwneud â chefnogi teulu a thraean ohonynt ar gyfer diogelu plant. Mae o leiaf chwarter y plant ar Gofrestr Diogelu Plant ac felly mae'r CTau wedi profi eu bod nid yn unig yn offeryn i gefnogi teulu ond hefyd yn rhan bwysig o waith diogelu plant.
Gofynnwyd i'r cyfranogwyr (cyfeirwyr, pobl ifanc, gofalwyr) am eu barn ar ôl y CT a dywedodd mwyafrif llethol bod y cyfarfod wedi cwrdd â'u hamcanion yn llwyr neu bron yn llwyr, a'r cyfeirwyr oedd gryfaf eu canmoliaeth. Er nad oedd data llawn ar gael am y cyfnod dilynol o chwe mis ar ôl y cyfarfodydd roedd lleihad yn y nifer a roddwyd ar y Gofrestr Diogelu Plant. Gobeithir y bydd mwy o ddata dilynol ar gael mewn blynyddoedd i ddod, ond gall y canlyniadau hyn fapio patrymau pwysig o ran ymyrraeth. Cyflwynwyd adroddiad i'r Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan ym Mawrth a thrafodwyd cryfderau a gwen-didau'r ymchwil. Ymddengys bod angen mwy o ddata dilynol, ynghyd â system o'i gasglu y gellir ei hymgorffori'n hawdd ym mhob prosiect, er mwyn ychwanegu at effaith y gwerthuso. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â: quinnaziza@Cardiff.ac.uk

Os am ymuno â'r Rhwydwaith neu am gael mwy o wybodaeth am y Rhwydwaith a Chyfarfodydd Teulu yng Nghymru, y DG neu Ewrop, cysylltwch â:maureen@cartrefbontnewydd.org gwenan@cartrefbontnewydd.org

Pobl Ifanc yn cael Lleisio Barn …..

Rydym wedi bod yn ymwybodol ers peth amser yn Cwlwm fod angen cynnwys defnyddwyr i'n helpu i wel-la'r gwasanaeth a gyflwynwn. Rydym wedi ceisio osgoi gwneud hyn mewn modd nad oedd o unrhyw werth ond caniatáu i ni ddweud ein bod wedi ei wneud. Erbyn hyn rydym yn teimlo bod gennym grŵp effeithiol a chynhwysol ar waith.
Roedd ein grŵp o bobl ifanc rhwng 11 a 18 oed yn awyddus i newid ein taflen wybodaeth gyffredinol gan eu bod yn cyfaddef nad oedd neb ohonynt wedi ei darllen. Roedd yn rhy blentynnaidd ac roedd gormod o eiriau yn y testun. Erbyn y drydedd sesiwn roedd y grŵp wedi mynd ati i nodi ar bapur yr hyn a fyddai'n gwneud taflen a fyddai'n targedu pobl ifanc. Ar y tu blaen mae llun a wnaed gan aelod o'r grŵp a chytunodd pawb ar y cynnwys. Cafwyd trafodaeth ddigri iawn ynglŷn â chynnwys Goth yn y prif lun! Ymysg yr aw-grymiadau roedd llai o eiriau a thestun, lle'r oedd modd, a llenwi'r lle â dyfyniadau gan ddefnyddwyr gyda wal graffiti yn y cefndir. Cynhelir ein grŵp nesaf gydag oedolion sydd yn aelodau o'r teuluoedd a byddwn yn ystyried ffurflenni adborth a'r modd y cyflwynir gwybodaeth mewn cyfarfodydd. Gobeithio y cawn gymaint o hwyl ag a gafodd y grŵp Pobl Ifanc. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â: maureen@catrefbontnewydd.org

Cynlluniau cyfarfodydd Teulu ar Draws Cymru

Flintshire/Wrexham
Pauline Bowe, Taith y Teulu Children's Services Department County Hall, Mold, Flintshire, CH7 6ND. Tel: 01352 702610

Gwynedd/Angelsey/Conwy Denbighshire: Gwenan Grufyyd Cwlwm FGM Project, Cartref Bont-newydd Trust, Bontnewydd, Caernare-fon, Gwynedd, LL54 7UN. Tel 01286 671008

Ceredigion: Heulwen Davies, Ad-ran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion, Min Aeron, Rhiw Goch, Aberaeron, SA46 ODY. Ffôn 01545 570881
Sir Gaerfyrddin: Teuluoedd Ym-laen, Natalie Cleaves, 24 Ffordd yr Orsaf, Llanelli, SA15 1AN. Ffôn 01554 745156
Castell-nedd Port Talbot: Barnardo's, Karen Rees, 4a Heol y Frenhines, Castell Nedd, SA11 1DL. Ffôn 01639 620771

Caerdydd: Cylch Teulu, Mike Clark, 32b Heol Isaf Y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 6LT, Ffôn 029 2034 4681

Bro Morgannwg: Prosiect CT y Fro, Keith Buckler, Swyddfa'r Dociau, Y Barri 01446704679

Casnewydd/Sir Fynwy/Rhondda Cy-non Taf, Caerffili: Atebion Teulu, David Flanagan, 30 Stow Park Ave, Casnewydd, NP20 4FN. Ffôn 01633 215784